CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 398 (Cy.55)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf"), caiff pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol ("awdurdod") yng Nghymru wneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan weithrediaethau, sy'n gorfod bod yn un o'r mathau a bennir yn adrannau 11(2) i (4) o'r Ddeddf neu mewn rheoliadau o dan adran 11(5). Yn ychwanegol at fath o weithrediaeth a ragnodir mewn rheoliadau o dan adran 11(5) o'r Ddeddf ac sy'n cael ei ddatgan yn y rheoliadau hynny yn fath o weithrediaeth y mae'n ofynnol cynnal refferendwm ar ei gyfer, mae'r mathau o weithrediaeth a bennir yn adrannau 11(2) ac 11(4) yn fathau o weithrediaeth y mae'n ofynnol cynnal refferendwm ar eu cyfer.

Mae Adran 34 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") wneud rheoliadau er mwyn ei gwneud neu mewn cysylltiad â'i gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n cael deiseb (sy'n cydymffurfio â darpariaethau rheoliadau o'r fath) gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod hwnnw weithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys math o weithrediaeth y mae'n ofynnol cynnal refferendwm ar ei gyfer.

Mae Adran 45(1) o'r Ddeddf yn darparu na chaiff awdurdod gynnal mwy nag un refferendwm mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd ("moratoriwm pummlynedd").

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 398 (W.55)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under Part II of the Local Government Act 2000 ("the Act"), every county and county borough council in Wales ("authority") is able to make arrangements for the discharge of its functions by executives which must take one of the forms specified in sections 11(2) to (4) of the Act or in regulations under section 11(5). In addition to a form of executive prescribed in regulations under section 11(5) of the Act which is expressed in those regulations to be a form of executive for which a referendum is required, the forms of executive specified in sections 11(2) and 11(4) are forms of executive for which a referendum is required.

Section 34 of the Act empowers the National Assembly for Wales ("the Assembly") to make regulations for or in connection with requiring an authority which receives a petition (which complies with the provisions of such regulations) to hold a referendum on whether that authority should operate executive arrangements involving a form of executive for which a referendum is required.

Section 45(1) of the Act provides that an authority may not hold more than one referendum in any period of five years ("five year moratorium").

Mae'r Cynulliad wedi gwneud rheoliadau o dan adran 34 o'r Ddeddf (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001")). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2001.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu'r cyfnodau amser pan gaiff yr etholaeth llywodraeth leol ar gyfer ardal awdurdod gyflwyno i'w hawdurdod ddeisebau yn gofyn am refferendwm. Mae rheoliad 3A newydd yn cael ei fewnosod yn Rheoliadau 2001 sy'n darparu y caiff yr etholaeth llywodraeth leol ar gyfer ardal awdurdod gyflwyno i'w hawdurdod ddeisebau yn gofyn am refferendwm yn ystod cyfnod deisebu. Chwe mis yw hyd cyfnod deisebu. Bydd y cyfnod deisebu cyntaf yn dechrau ddeuddeng mis cyn y dyddiad y cynhelir etholiadau llywodraeth leol cyffredin 2004. Yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir yn y rheoliadau newydd 3A(5) i (8), bydd cyfnodau deisebu dilynol ar gyfer awdurdod yn digwydd unwaith bob pedair blynedd, a bydd pob cyfnod deisebu yn dechrau ddeuddeng mis cyn y dyddiad y cynhelir yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf.

Mae'r eithriadau y cyfeiriwyd atynt yn rheoliadau newydd 3A(5) i (8) yn gymwys pan fydd awdurdod wedi cynnal refferendwm boed hynny'n unol â deiseb, cyfarwyddyd y Cynulliad a gyhoeddwyd o dan Ran III o Reoliadau 2001, neu orchymyn a wnaed gan y Cynulliad o dan adran 36 o'r Ddeddf ac, o ganlyniad, mae moratoriwm pummlynedd wedi dechrau. Mae rheoliad newydd 3A(5) yn darparu, os yw rhan neu'r cyfan o gyfnod deisebu awdurdod i fod i ddechrau o fewn cyfnod moratoriwm pummlynedd, y bydd y cyfnod deisebu hwnnw mewn gwirionedd yn dechrau ar y dyddiad yn ystod y cyfnod moratoriwm pummlynyddol hwnnw sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad cynharaf y gellir cynnal ail refferendwm (neu un dilynol) yn gyfreithlon yn ardal yr awdurdod hwnnw. Mae rheoliad newydd 3A(6) yn darparu, os na chaiff awdurdod yr un ddeiseb yn ystod cyfnod deisebu a bennir yn unol â rheoliad 3A(5), y bydd cyfnod deisebu nesaf yr awdurdod yn dechrau ddeuddeng mis cyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf. O dan reoliad newydd 3A(7) ni chaiff yr un rhan o ddau gyfnod deisebu ar gyfer awdurdod penodol ddigwydd o fewn yr un flwyddyn.

Mae Rheoliadau 2001 yn cael eu diwygio hefyd fel na fydd deiseb a gyflwynwyd i awdurdod yn ddilys ond os (ymhlith pethau eraill) y mae'r ddeiseb honno yn cael ei chyflwyno i'r awdurdod hwnnw o fewn cyfnod deisebu.

Yn ychwanegol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 9(5) o Reoliadau 2001 fel bod rhaid anwybyddu unrhyw lofnod ar ddeiseb a gyflwynwyd i awdurdod os yw'r dyddiad arni yn gynharach na chwe mis cyn dyddiad y ddeiseb (ymadrodd sy'n cael ei ddiffinio yn rheoliad 3 o Reoliadau 2001 a'i ddiwygio gan y Rheoliadau hyn) wrth benderfynu a yw'r ddeiseb wedi'i llofnodi gan ddim llai na 10% o'r nifer o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod hwnnw ("y rhif dilysu").

The Assembly has made regulations under section 34 of the Act (the Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations")). These Regulations amend the 2001 Regulations.

In particular, these Regulations limit the periods of time in which the local government electorate for an authority's area may present petitions seeking a referendum to their authority. A new regulation 3A is inserted into the 2001 Regulations which provides that the local government electorate for an authority's area may present petitions seeking a referendum to their authority during a petition period. The duration of a petition period is six months. The first petition period will commence twelve months before the date on which the 2004 ordinary local government elections are to be held. Subject to the exceptions set out at new regulations 3A(5) to (8), subsequent petition periods for an authority will occur once every four years, with each petition period commencing twelve months before the date of the next ordinary local government elections.

The exceptions referred to at new regulations 3A(5) to (8) apply where an authority has held a referendum whether in pursuance of a petition, an Assembly direction issued under Part III of the 2001 Regulations, or an order made by the Assembly under section 36 of the Act and, as a result, a five year moratorium has commenced. New regulation 3A(5) provides that if part or the whole of an authority's petition period is due to commence within a five year moratorium period, that petition period will in fact commence on the date during that five year moratorium period which is twelve months before the earliest date on which a second (or subsequent) referendum may lawfully be held in that authority's area. New regulation 3A(6) provides that if no petitions are received by an authority during a petition period determined in accordance with regulation 3A(5), the next petition period for that authority will be due to commence twelve months before the next ordinary local government elections. Under new regulation 3A(7) no part of two petition periods for a particular authority may occur within the same year.

The 2001 Regulations are also amended such that a petition presented to an authority will only be valid if (among other things) that petition is presented to that authority within a petition period.

In addition, these Regulations amend regulation 9(5) of the 2001 Regulations such that any signature on a petition presented to an authority which bears a date earlier than 6 months before the petition date (a term defined in regulation 3 of the 2001 Regulations and amended by these Regulations) must be disregarded in determining whether the petition is signed by not less than 10% of the number of local government electors for that authority's area ("the verification number").

Mae Rheoliad 4 o Reoliadau 2001 yn cael ei ddiwygio hefyd fel, heblaw at ddibenion y cyfnod deisebu cyntaf, rhaid i swyddog priodol awdurdod gyhoeddi'r rhif dilysu o fewn cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad sy'n dod 7 mis cyn dechrau cyfnod deisebu ar gyfer yr awdurdod hwnnw.

Regulation 4 of the 2001 Regulations is also amended in that, other than for the purposes of the first petition period, the proper officer of an authority must publish the verification number within a period of 14 days beginning with the date that is 7 months prior to the commencement of a petition period for that authority.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 398 (Cy.55)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *25 Chwefror 2003* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 34, 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 4 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Rheoliadau 2001" (*"the 2001 Regulations"*) yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001(**b**).

**Diwygio Rheoliadau 2001**

**3.**-(1) Mae Rheoliadau 2001 yn cael eu diwygio'n unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 3 -

(a) o flaen y diffiniad o "cyfnod hysbysu" mewnosodwch -

"mae i "cyfnod deisebu cyntaf" (*"first petition period"*) yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 3A;";

(a) 2000 p.22.

(b) O.S. 2001/2292 (Cy.180).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 398 (W.55)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *25th February 2003* |
| *Coming into force* | *4th April 2003* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 34, 105(2) and 106(1) and (2) of the Local Government Act 2000(**a**):

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations are called the Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and will come into force on 4th April 2003.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations -

"the 2001 Regulations" (*"Rheoliadau 2001"*) means the Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Wales) Regulations 2001(**b**).

**Amendment of the 2001 Regulations**

**3.**-(1) The 2001 Regulations are amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In regulation 3 -

(a) after the definition of "constitutional change" insert -

""first petition period" (*"cyfnod deisebu cyntaf"*) has the meaning given by regulation 3A;";

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2001/2292 (W.180).

(b) yn lle'r diffiniad o "cyfnod moratoriwm" rhoddir -

"ystyr "cyfnod moratoriwm" (*"moratorium period"*) yw'r cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y mae awdurdod yn cynnal refferendwm arno o dan Ran II o'r Ddeddf;";

(c) yn y diffiniad o "dyddiad y ddeiseb" -

(i) mae paragraffau (a) ac (ch) yn cael eu dileu; ac

(ii) ym mharagraffau (b) ac (c), mae'r geiriau "yn ddarostyngedig i baragraff (ch)," yn cael eu dileu;

(ch) ar ôl y geiriau "Yn y Rhan hon -" mewnosodwch -

"mae i "cyfnod deisebu" (*"petition period"*) yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 3A;";

(d) ar ôl y diffiniad o "dibenion dilysu" mewnosodwch -

"ystyr "dyddiad dilysu" (*"verification date"*), heblaw mewn cysylltiad â'r cyfnod dilysu cyntaf, yw'r dyddiad sy'n dod saith mis cyn dechrau cyfnod deisebu;" ac

(dd) yn lle'r diffiniad o "rhif dilysu" rhoddir -

"ystyr "rhif dilysu" (*"verification number"*) mewn cysylltiad â deiseb, yw'r rhif sydd i'w ddefnyddio at ddibenion dilysu yn rhinwedd paragraffau (2) neu (4) o reoliad 4;"

(3) Ar ôl rheoliad 3, mewnosodwch -

**"Cyfnodau deisebu**

**3A.**-(1) Caiff etholaeth llywodraeth leol ar gyfer ardal awdurdod gyflwyno deisebau i'r awdurdod hwnnw yn ystod cyfnod deisebu.

(2) Chwe mis yw hyd cyfnod deisebu.

(3) Bydd y cyfnod deisebu cyntaf yn dechrau ar y dyddiad sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad y mae etholiadau llywodraeth leol cyffredin 2004 i'w cynnal arno.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau canlynol y rheoliad hwn, bydd cyfnodau deisebu dilynol ar gyfer awdurdod yn dechrau ar y dyddiad sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad y mae pob etholiad llywodraeth leol cyffredin canlynol i'w gynnal arno.

(5) Os yw rhan neu'r cyfan o un neu fwy o gyfnodau deisebu awdurdod fel y penderfynwyd arno yn unol â pharagraff (4) neu'r paragraffau canlynol i ddod o fewn cyfnod moratoriwm, bydd y cyfnod deisebu hwnnw, neu'r cyfnodau deisebu hynny (sydd, at ddibenion y rheoliad hwn, i'w trin

(b) for the definition of "moratorium period" there is substituted -

""moratorium period" (*"cyfnod moratoriwm"*) means the period of five years commencing on the date on which an authority holds a referendum under Part II of the Act;";

(c) in the definition of "petition date" -

(i) paragraphs (a) and (d) are deleted; and

(ii) in paragraphs (b) and (c), the words "subject to paragraph (d)," are deleted;

(d) after the definition of "petition organiser" insert -

""petition period" (*"cyfnod deisebu"*) has the meaning given by regulation 3A;";

(e) after the definition of "valid petition" insert -

""verification date" (*"dyddiad dilysu"*) means, other than in relation to the first petition period, the date that is seven months before the commencement of a petition period;"; and

(f) for the definition of "verification number" there is substituted -

""verification number" (*"rhif dilysu"*), in relation to a petition, means the number to be used for verification purposes by virtue of paragraphs (2) or (4) of regulation 4; and".

(3) After regulation 3, insert -

**"Petition periods**

**3A.**-(1) The local government electorate for an authority's area may present petitions to that authority during a petition period.

(2) The duration of a petition period is six months.

(3) The first petition period will commence on the date that is twelve months before the date on which the ordinary local government elections in 2004 are to be held.

(4) Subject to the following paragraphs of this regulation, subsequent petition periods for an authority will commence on the date that is twelve months before the date on which each subsequent ordinary local government elections are to be held.

(5) If part or the whole of one or more of an authority's petition periods as determined in accordance with paragraph (4) or the following paragraphs are to fall within a moratorium period, that petition period, or those petition periods (which, for the purposes of this regulation, are to

fel pe baent yn gyfnod deisebu unigol), yn dechrau ar y dyddiad yn ystod y cyfnod moratoriwm hwnnw sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad cynharaf y caniateir i refferendwm gael ei gynnal yn gyfreithlon yn ardal yr awdurdod hwnnw.

(6) Os nad yw awdurdod yn cael deiseb ddilys yn ystod cyfnod deisebu a bennir yn unol â pharagraff (5), bydd y dyddiad y bydd y cyfnod deisebu nesaf yn dechrau i'r awdurdod hwnnw yn dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad y cynhelir yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf.

(7) Ni fydd paragraff (6) yn gymwys os bydd rhan neu'r cyfan o gyfnod deisebu a bennir yn unol â'r paragraff hwnnw yn dod mewn blwyddyn lle bydd rhan neu'r cyfan o gyfnod deisebu a bennir yn unol â pharagraff (5) yn dod.

(8) Os nad yw awdurdod yn cael deiseb ddilys yn ystod cyfnod deisebu a bennir yn unol â pharagraff (5) ac, yn rhinwedd paragraff (7), nid yw paragraff (6) yn gymwys, bydd y cyfnod deisebu nesaf ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn dechrau ar y dyddiad sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad y cynhelir yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin sy'n dod ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf.".

(4) Yn lle rheoliad 4, rhowch -

**"Rhif dilysu**

**4**.-(1) Heb fod yn hwyrach na phedair wythnos ar ôl 4 Ebrill 2003, rhaid i swyddog priodol pob awdurdod gyhoeddi'r rhif sy'n hafal i 10% o'r nifer o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod a welir yn y gofrestr neu'r cofrestrau etholiadol a gyhoeddwyd ac sydd yn effeithiol ar gyfer ardal yr awdurdod ar y 4 Ebrill 2003(**a**).

(2) Caiff y rhif a gyhoeddir yn unol â pharagraff (1) ei ddefnyddio at ddibenion dilysu mewn cysylltiad ag unrhyw ddeiseb a gyflwynir i'r awdurdod yn ystod y cyfnod deisebu cyntaf.

(3) At ddibenion pob cyfnod deisebu canlynol, rhaid i swyddog priodol pob awdurdod, o fewn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad dilysu, gyhoeddi'r rhif sy'n hafal i 10% o'r nifer o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod fel y'i nodir yn y fersiwn diwygiedig o'r cofrestri sy'n effeithiol ar gyfer yr ardal ar y dyddiad dilysu.

(a) *Gweler* adran 13(5) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2) a amnewidiwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p.2), Atodlen 1, paragraff 6 ynglyn â'r cyfnod y mae'r cofrestrau yn effeithiol ar ei gyfer.

be treated as a single petition period), will commence on the date during that moratorium period that is twelve months before the earliest date on which a second (or subsequent) referendum may lawfully be held in the area of that authority.

(6) Where an authority does not receive a valid petition during a petition period determined in accordance with paragraph (5), the date on which the next petition period for that authority will commence is the date that is twelve months before the date on which the next ordinary local government elections are to be held.

(7) Paragraph (6) will not apply where part or the whole of a petition period determined in accordance with that paragraph will fall within a year in which part or the whole of a petition period determined in accordance with paragraph (5) falls.

(8) Where an authority does not receive a valid petition during a petition period determined in accordance with paragraph (5) and, by virtue of paragraph (7), paragraph (6) does not apply, the next petition period for that authority will commence on the date that is twelve months before the date on which the ordinary local government elections which are subsequent to the next ordinary local government elections are to be held.".

(4) For regulation 4, substitute -

**"Verification number**

**4**.-(1) Not later than four weeks after 4th April 2003, the proper officer of each authority shall publish the number that is equal to 10% of the number of local government electors for the authority's area shown in the electoral register or registers published and having effect for the authority's area on 4th April 2003(**a**).

(2) The number published in accordance with paragraph (1) will be used for verification purposes in relation to any petition presented to the authority during the first petition period.

(3) For the purposes of each subsequent petition period, the proper officer of each authority must, within the period of 14 days beginning with the verification date, publish the number that is equal to 10% of the number of local government electors for the authority's area shown in the revised version of the registers having effect for the area on the verification date.

(a) *See* section 13(5) of the Representation of the People Act 1983 (c.2) substituted by the Representation of the People Act 2000 (c.2), Schedule 1, paragraph 6 as to the period for which registers have effect.

(4) Caiff y rhif a gyhoeddir yn unol â pharagraff (3) ei ddefnyddio at ddibenion dilysu mewn cysylltiad ag unrhyw ddeiseb a gyflwynir i'r awdurdod yn ystod y cyfnod deisebu sydd i ddechrau saith mis ar ôl y dyddiad dilysu y mae'r nifer hwnnw yn berthnasol iddo.

(5) Caiff y swyddog priodol, mewn cysylltiad â chyflawni'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan baragraffau (1) neu (3), wneud cais ysgrifenedig i swyddog cofrestru etholiadol ddarparu i'r swyddog priodol wybodaeth sy'n berthnasol i'r rhif sydd i'w gyhoeddi yn unol â'r paragraffau hynny; a rhaid i swyddog cofrestru etholiadol sy'n cael cais o'r fath gydymffurfio ag ef o fewn y cyfnod o saith diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y daeth y cais i law.".

(5) Yn lle rheoliad 5, rhowch -

**"Cyhoeddusrwydd ar gyfer rhif dilysu a chyfnod deisebu**

**5.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi rhif dilysu, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal hysbysiad sy'n cynnwys datganiad -

(a) bod swyddog priodol yr awdurdod wedi cyhoeddi'r rhif sy'n hafal i 10% o'r nifer o etholwyr llywodraeth leol a welir yn y gofrestr neu'r cofrestrau etholiadol sy'n effeithiol ar gyfer ardal yr awdurdod ar -

(i) at ddibenion y cyfnod deisebu cyntaf, y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym; neu

(ii) at ddibenion cyfnod deisebu canlynol, y dyddiad dilysu;

(b) o'r rhif a gyhoeddwyd felly;

(c) y bydd y rhif a gyhoeddwyd felly yn effeithiol at ddibenion penderfynu dilysrwydd y deisebau a gyflwynwyd i'r awdurdod yn ystod y cyfnod deisebu cyntaf neu (fel y bo'n briodol) y cyfnod deisebu ar gyfer yr awdurdod hwnnw a fydd yn dechrau saith mis ar ôl y dyddiad dilysu y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (a)(ii);

(ch) o'r dyddiad y bydd y cyfnod deisebu hwnnw (boed hynny y cyfnod deisebu cyntaf neu gyfnod deisebu canlynol) ar gyfer yr awdurdod -

(i) yn dechrau; a

(ii) yn dod i ben; a

(d) o gyfeiriad prif swyddfa'r awdurdod.".

(6) Yn lle rheoliad 9(1)(c), rhowch -

(4) The number published in accordance with paragraph (3) will be used for verification purposes in relation to any petition presented to the authority during the petition period that is to commence seven months after the verification date to which that number relates.

(5) The proper officer may, in connection with the discharge of the duty imposed by paragraphs (1) or (3), make a request in writing to an electoral registration officer to provide the proper officer with information relevant to the number that is to be published in accordance with those paragraphs; and an electoral registration officer who receives such a request must comply with it within the period of seven days beginning with the day on which the request is received.".

(5) For regulation 5, substitute -

**"Publicity for verification number and petition period**

**5.** As soon as reasonably practicable after the publication of a verification number, the authority must publish in at least one newspaper circulating in its area a notice containing a statement -

(a) that the authority's proper officer has published the number that is equal to 10% of the number of local government electors shown in the electoral register or registers having effect for the authority's area on the date that -

(i) for the purposes of the first petition period, is the date of the coming into force of these Regulations; or

(ii) for the purposes of a subsequent petition period, is the verification date;

(b) of the number so published;

(c) that the number so published will have effect for the purposes of determining the validity of petitions presented to the authority during the first petition period or (as is appropriate) the petition period for that authority that will commence seven months after the verification date referred to in paragraph (a)(ii);

(d) of the date on which that petition period (be it the first petition period or a subsequent petition period) for the authority will -

(i) commence; and

(ii) end; and

(e) of the address of the authority's principal office.".

(6) For regulation 9(1)(c), substitute -

"(c) os yw wedi'i chyflwyno i'r awdurdod y mae wedi'i chyfeirio ato ar ddiwrnod sy'n dod o fewn cyfnod deisebu ar gyfer yr awdurdod hwnnw.".

(7) Yn rheoliad 9(5), yn lle'r geiriau "12 mis" rhoddir "6 mis".

(8) Yn rheoliad 14(1), ar ôl "o fewn y cyfnod hysbysu" mewnosodwch "ac, os yw'n bosibl, pan fydd y ddeiseb honno yn bodloni gofynion rheoliad 9(1)(c), o fewn y cyfnod deisebu hwnnw,".

(9) Yn rheoliad 14(3), ar ôl "Mewn achos y mae paragraff (1) yn gymwys iddo", mewnosodwch "ac yn ddarostyngedig i baragraff (3A)".

(10) Ar ôl rheoliad 14(3) mewnosodwch -

"(3A) Os yw deiseb y mae hysbysiad i'w gyhoeddi mewn perthynas ag ef yn unol â pharagraff (3) yn bodloni gofynion rheoliad 9(1)(c) rhaid i'r awdurdod, os yw'n bosibl, gyhoeddi'r hysbysiad hwnnw o fewn y cyfnod deisebu hwnnw ac o fewn y cyfnod hysbysu.".

(11) Yn rheoliad 16(1), ar ôl "Yn ddarostyngedig i baragraffau" mewnosodwch "(1A),".

(12) Ar ôl rheoliad 16(1) mewnosodwch -

"(1A) Os -

(a) y mae cyfnod deisebu awdurdod yn dechrau (yn rhinwedd rheoliad 3A(5)) ar y dyddiad sy'n dod ddeuddeng mis cyn y dyddiad cynharaf y caiff yr awdurdod gynnal ail refferendwm (neu un dilynol); a

(b) y mae deiseb ddilys yn cael ei chyflwyno i'r awdurdod hwnnw o fewn y cyfnod deisebu hwnnw,

rhaid i'r awdurdod hwnnw gynnal refferendwm ar y dyddiad cynharaf y caniateir iddo gynnal yn gyfreithlon ail refferendwm (neu un dilynol).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

25 Chwefror 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

"(c) it is presented to the authority to which it is addressed on a day that falls within a petition period for that authority.".

(7) In regulation 9(5), for the words "12 months" there is substituted "6 months".

(8) In regulation 14(1), after "within the notice period" insert "and, if possible, where that petition satisfies the requirements of regulation 9(1)(c), within that petition period,".

(9) In regulation 14(3), after "In a case to which paragraph (1) applies", insert "and subject to paragraph (3A)".

(10) After regulation 14(3) insert -

"(3A) Where a petition in relation to which a notice is to be published in accordance with paragraph (3) satisfies the requirements of regulation 9(1)(c) the authority must, if possible, publish that notice within that petition period and within the notice period.".

(11) In regulation 16(1), after "Subject to paragraphs" insert "(1A),".

(12) After regulation 16(1) insert -

"(1A) Where -

(a) an authority's petition period commences (by virtue of regulation 3A(5)) on the date that is twelve months before the earliest date on which that authority may hold a second (or subsequent) referendum; and

(b) a valid petition is presented to that authority within that petition period,

that authority must hold a referendum on the earliest date on which it may lawfully hold a second (or subsequent) referendum.".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

25th February 2003

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2003 Rhif 398 (Cy.55)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 No. 398 (W.55)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Referendums) (Petitions and Directions) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090669-1

9 780110 906690

**£2.50**

W20/03/03 ON